# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 22 Ionawr 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Nick Ramsay (Mynwy):** O ran cau siopau Woolworths, a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llunio strategaeth i ganfod tenantiaid newydd ar gyfer y prif leoliadau? (WAQ53109)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau i ymyrryd ar y mater hwn. Yn y pen draw, y gweinyddwyr sy'n gyfrifol am waredu hen adeiladau Woolworths. Rwy'n ymwybodol y gallai adeiladau Woolworths gwag gael effaith weledol negyddol bosibl ar rai o'n tirluniau canol trefi, a gall rhaglen adfywio Llywodraeth y Cynulliad gynorthwyo. Mae Ardaloedd Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru a'r Cymoedd Gorllewinol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ynghyd â Rhaglenni Môn a Menai a Blaenau'r Cymoedd, yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i gydweithio â rhanddeiliaid lleol ar adfywio ardaloedd. Ymhlith manteision eraill, defnyddir y rhaglenni hyn i gyflwyno'r broses o adfywio canol trefi, sy'n unol â blaenoriaethau a arweinir yn lleol.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniadau'r ymgynghoriad ynghylch pennu terfynau cyflymder lleol? (WAQ53127)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ar sawl mater allweddol gan gynnwys terfynau cyflymder drwy gymunedau gwledig, y cyfnod pum mlynedd arfaethedig i adolygu terfynau cyflymder ar ffyrdd A a B a'r defnydd o derfynau 20mya. Gobeithiaf gyhoeddi'r ddogfen ganllaw derfynol yn ystod gwanwyn 2009.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A fydd y Gweinidog yn cyhoeddi cyfarwyddyd ar ddefnyddio bathodynnau glas anabl ar gyfer pob dros 75 oed yng Nghymru, pryd fydd yn cael ei gyhoeddi a beth fydd yn y cyfarwyddyd? (WAQ53131)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ni fyddaf yn cyhoeddi canllaw penodol ar gyfer y rhai dros 75 oed. Mae'r canllaw sydd wedi'i gyhoeddi ar gyfer y Cynllun Bathodyn Glas yn cwmpasu pob deiliad bathodyn waeth beth fo'i oed a'i anabledd. Rydym yn adolygu'r Cynllun Bathodyn Glas ac yn bwriadu cyflwyno canllaw newydd maes o law.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa ddulliau diogelu mae'r Gweinidog yn eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw'r arfer a elwir yn 'gipio gerddi' yn digwydd yng Nghymru? (WAQ53124)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Rwy'n ymwybodol bod y mater o 'gipio gerddi', lle caiff gerddi cefn eu prynu a'u cyflwyno ar gyfer plotiau adeiladu, wedi codi yn ystod y camau Seneddol olaf cyn i Ddeddf Cynllunio 2008 gael Cydsyniad Brenhinol.

Nid wyf wedi cael tystiolaeth fod hyn yn broblem yng Nghymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu'r ffactorau y dylid eu hystyried pan gaiff adeiladau newydd eu cynnig mewn ardaloedd preswyl sefydledig, gan gynnwys y pwysigrwydd dylunio sensitif a thirweddu da, ac osgoi anawsterau sy'n codi o ran mynediad, aflonyddu a diffyg preifatrwydd.

Rwy'n deall bod yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi yr Hydref diwethaf y byddant yn comisiynu adolygiad i ymchwilio i raddfa'r mater o gipio gerddi yn Lloegr, ac a oes angen cymryd camau pellach. Byddaf yn ystyried canlyniad y gwaith hwn yn ofalus pan gaiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno argymhellion a wnaed gan yr adolygiad Killian-Pretty? (WAQ53125)

**Jane Davidson:** Yn fy Natganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2008 cyhoeddais fy mod yn edrych ar ffyrdd o symleiddio'r broses o wneud cais cynllunio yng Nghymru a gyflwynir gan y 25 o awdurdodau cynllunio lleol.

Gan fod hon yn agenda gwella ar y cyd, byddaf yn disgwyl i bartneriaid cynllunio allweddol gan gynnwys llywodraeth leol, ymgynghoreion statudol, busnesau a'r trydydd sector chwarae rhan.

Caiff y canfyddiadau o adroddiad Killian-Pretty, sy'n canolbwyntio ar y broses gynllunio mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Lloegr, eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn, er y dylid nodi nad yw'r system yng Nghymru yn union yr un fath.

Bydd y gwaith yng Nghymru hefyd yn ystyried tystiolaeth arall ledled y DU, arferion da sydd eisoes ar waith, yn ogystal â'r darpariaethau mewn deddfwriaeth sylfaenol ddiweddar.

Rwy'n bwriadu rhoi rhagor o wybodaeth am y rhaglen wella hon maes o law, gan nodi'r prif elfennau, unrhyw waith ymgynghori a ddisgwylir, a'r amserlenni tebygol o ran ei gweithredu.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa ganran o wardiau ysbytai sy'n wardiau cymysg ac a fyddai'r Gweinidog yn darparu dadansoddiad ar gyfer pob ardal bwrdd iechyd lleol? (WAQ53128)

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch effaith wardiau cymysg ar ofal cleifion? (WAQ53129)

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A all y Gweinidog ddarparu ffigurau ar nifer yr ymosodiadau ar gleifion neu ar staff ar wardiau cymysg yng Nghymru? (WAQ53130)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Nid oes data ar y ganran o wardiau ysbyty rhyw cymysg ar gael ar hyn o bryd. Mae'r effaith ar ofal cleifion ar wardiau rhyw cymysg wedi'i thrafod fel rhan o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogion ar gyfer Grymuso Prif Nyrsys Ward, a gadeiriwyd gan Gyfarwyddwr Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru. Rwyf wedi derbyn yr adroddiad hwn a'i argymhellion. Nid oes data ar ymosodiadau ar gleifion neu staff ar wardiau rhyw cymysg ar gael.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog gomisiynu adolygiad i effeithiolrwydd Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan a sut y gallai ddatblygu? (WAQ53136)

**Edwina Hart:** Byddaf yn penderfynu p'un a fydd angen adolygu Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan pan fyddaf wedi cael yr adroddiad a gomisiynais yn ddiweddar ar y materion sy'n ymwneud â gwella argaeledd meddyginiaethau ar gyfer cleifion yng Nghymru. Rwy'n disgwyl yr adroddiad hwnnw yn fuan.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa asesiad y mae naill ai Llywodraeth Cynulliad Cymru neu Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan wedi'i wneud o'r cyfarwyddyd atodol ar Torsiel a gyhoeddwyd gan NICE? (WAQ53137)

**Edwina Hart:** Rwyf wedi trafod y canllaw atodol yn uniongyrchol â NICE ac yn croesawu'r hyblygrwydd ychwanegol mae'n ei roi o ran penderfynu ar gost-effeithiolrwydd cyffuriau fel Torisel.

Mae Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan yn cynnig mabwysiadu canllaw NICE fel rhan o'i feini prawf arfarnu ei hun.

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion faint o alwadau yr amheuir eu bod yn ffug a gafodd y Gwasanaeth Ambiwlans yn Nwyrain De Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf? (WAQ53144)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion faint o alwadau yr amheuir eu bod yn ffug a gafodd y Gwasanaeth Ambiwlans yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf? (WAQ53145)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion faint o alwadau yr amheuir eu bod yn ffug a gafodd y Gwasanaeth Ambiwlans yn Islwyn yn ystod y 12 mis diwethaf? (WAQ53146)

**Edwina Hart:** Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Fesul pob Bwrdd Iechyd Lleol, beth oedd nifer cyfartalog yr absenoldebau oherwydd salwch ar ddiwrnodau gwaith ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf? (WAQ53097)

**Edwina Hart:** Caiff data absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG ei nodi fel arfer fel canran o'r amser a gollir ac nid mewn diwrnodau calendr. Caiff y wybodaeth ei choladu a byddaf yn ysgrifennu atoch unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion faint o alwadau yr amheuir eu bod yn ffug a gafodd y gwasanaeth tân yn Islwyn yn ystod y 12 mis diwethaf? (WAQ53141)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion faint o alwadau yr amheuir eu bod yn ffug a gafodd y gwasanaeth tân yn Nwyrain De Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf? (WAQ53142)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion faint o alwadau yr amheuir eu bod yn ffug a gafodd y gwasanaeth tân yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf. (WAQ53143)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Ni chesglir y nifer o alwadau tân ffug a dderbynnir gan y gwasanaeth tân ac achub yn benodol i Islwyn a De-ddwyrain Cymru yn ganolog o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cadw'r data hwn yn lleol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu data ar alwadau ffug maleisus ar lefel Awdurdod Tân ac Achub.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2007-08, derbyniodd y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru 4,708 o alwadau ffug maleisus, gyda 2,884 ohonynt gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (fel y cofnodwyd yn 'Ystadegau Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru, 2007-08').

Gellir gweld ystadegau llawn ar Ystadegau Cymru yn y ffolder Diogelwch Cymunedol (atodir dolen).

http://www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/ReportFolders.aspx?CS_referer=&CS_ChosenLang=en